**Dewch i Siarad: Byw yn Sir y Fflint** (Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol)

**Polisi Preifatrwydd**

Mae'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn cefnogi Cynghorau lleol i gynyddu eu dealltwriaeth o'u perfformiad eu hunain a chlywed a deall safbwyntiau a chanfyddiadau eu preswylwyr.

Mae Cynghorau lleol yng Nghymru'n destun sawl dyletswydd gyfreithiol amrywiol, ac mae nifer ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn ymgysylltu â phreswylwyr yn rheolaidd a pharhaus. Un o nodau craidd yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yw cefnogi Cynghorau lleol i ddiwallu'r dyletswyddau ymgysylltu presennol ac yn y dyfodol, ond, yn bwysicaf oll, i gynyddu eu dealltwriaeth o'u perfformiad a chlywed a deall safbwyntiau a chanfyddiadau eu preswylwyr.

Bydd y polisi preifatrwydd hwn yn egluro sut mae ein sefydliad yn defnyddio'r data personol yr ydym yn ei gasglu gennych pan fyddwch yn cymryd rhan yn yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol.

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o'n tasg gyhoeddus at ddibenion penodol:

1. Deall tueddiadau lleol i ddatblygu datrysiadau lleol.
2. Cynnal gwelliannau dan arweiniad y sector drwy feincnodi.

Sy'n cyfrannu at ddiwallu gofynion deddfwriaethol amrywiol o ran ymgysylltu ac ymgynghori o dan y deddfau canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Darperir diogeliad ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau penodol o wybodaeth a elwir yn 'ddata personol categori arbennig', ac mae'n rhaid nodi sail gyfreithlon ychwanegol er mwyn prosesu'r mathau hyn o wybodaeth, fel yr amlinellir isod:

- Erthygl 9(g) Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data - mae prosesu'n hanfodol o ran rhesymau budd sylweddol y cyhoedd

**Pa ddata ydym ni'n ei gasglu a sut ydym ni'n casglu eich data?**

Mae'r Cyngor yn casglu'r data personol canlynol:

- Cyfeiriadau IP
- Cod Post

Gall y Cyngor gasglu'r data personol canlynol os ydych chi'n ateb y cwestiynau'n wirfoddol:

- Oedran - Bandiau 10 mlynedd o 16 hyd at 85+
- Rhyw
- Hunaniaeth rhywedd
- Hunaniaeth Genedlaethol
- Grŵp ethnig
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol
- Gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd (os yw ymatebydd yn nodi bod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol)
- Crefydd
- Iaith a ffefrir (dewis arall lle y gellir nodi iaith)

Bydd y data yr ydym yn ei gasglu'n cael ei brosesu pan fyddwch yn llenwi'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol drwy ddolenni digidol a chofnodion papur yn wirfoddol.

**Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu eich data?**

Mae eich data personol yn cael ei rannu gyda'r sefydliad partner a restrwyd

- Data Cymru

Mae Data Cymru'n cynnal yr arolwg ar ran y Cyngor. Mae'r cwestiynau craidd a ofynnir i chi hefyd yn cael eu gofyn mewn sawl Cyngor lleol arall ledled Cymru fel rhan o ymagwedd ehangach i glywed gan breswylwyr.

Mae'r data'n cael ei rannu at ddibenion cefnogi Cynghorau lleol i ddiwallu'r dyletswyddau ymgysylltu presennol ac yn y dyfodol.

Bydd y Cyngor yn cael gwared ar yr arolygon papur ar ôl eu digideiddio i osgoi dyblygu a gwella diogelwch. Bydd yr holl arolygon papur yn cael eu digideiddio o fewn 3 wythnos ar ôl cau'r arolwg.

Bydd Data Cymru'n cadw data personol am 3 blynedd. Pan fydd yr amser hwn wedi pasio, byddwn yn dileu eich data.

**Newidiadau i'n polisi preifatrwydd**

Mae'r Cyngor yn adolygu ei bolisi preifatrwydd yn rheolaidd ac yn amlygu unrhyw ddiweddariad ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ar 21 Awst 2025.

**Sut i gysylltu â ni**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am bolisi preifatrwydd y Cyngor, y data sydd gennym ni amdanoch chi, neu os hoffech chi arfer un o'ch hawliau diogelu data, mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Anfonwch e-bost at:** dweudeichdweud@siryfflint.gov.uk

**Ffoniwch ni:** 01352 703020

**Neu ysgrifennwch atom:**
Cyngor Sir y Fflint
Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Tŷ Dewi Sant,
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3FF

**Sut i gysylltu â'r awdurdod priodol**

Os hoffech chi wneud cwyn neu os ydych chi'n teimlo nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'ch pryderon mewn modd boddhaol, fe allwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy eu gwefan yn Gwneud Cwyn | ICO neu drwy ffonio 0303 123 1113.